

**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2016 ym
Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL

Y Cyng. W Tudor Owen, Cynrychiolydd y Cyflogwr (Cadeirydd)

Y Cyng. Brian Dunn, Cynrychiolydd y Cyflogwr

Y Cyng. Delyth Macrae, Cynrychiolydd y Cyflogwr

Y Cyng. J Rodney Skelland, Cynrychiolydd y Cyflogwr

Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân a Thrysorydd Dros Dro, yno i gynghori

Julie Brown, Pennaeth Cyllid, yno i gynghori

Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr

Paul Scott, Cymdeithas y Swyddogion Tân, Cynrychiolydd y Gweithwyr

Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, Cofnodydd

YMDDIHEURIADAU

Richard Fairhead, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân

Ruth Simmons, PSTC, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân

Shane Price, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr

Sandra Williams, Undeb yr FBU, Cynrychiolydd y Gweithwyr

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2016 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 ADOLYGIAD O'R CYLCH GORCHWYL

4.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i ofyn i'r Aelodau adolygu'r cylch gorchwyl gan fod y Bwrdd yn gwbl weithredol ers blwyddyn.

4.2 Nodwyd bod paragraffau 13 a 24 yn gwrth-ddweud ei gilydd, a chytunodd y Pennaeth Cyllid i adolygu'r paragraffau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn dweud nad oes modd i ddirprwyon ddod i'r cyfarfod oherwydd natur y gwaith a lefel yr hyfforddiant a'r wybodaeth sydd eu hangen.

4.3 **PENDERFYNWYD nodi'r cylch gorchwyl am gyfnod o flwyddyn, yn amodol ar ailysgrifennu paragraffau 13 a 24 i sicrhau nad oes modd i ddirprwyon ddod i gyfarfodydd.**

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD PENSIWN LLEOL 2015-16

5.1 Cyflwynodd y DBST adroddiad blynyddol y Bwrdd Pensiwn Lleol sy'n rhoi manylion gwaith y bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

5.2 Fel y nodir yng nghylch gorchwyl y Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys:

- crynodeb o waith y Bwrdd Pensiwn Lleol a chynllun gwaith am y flwyddyn i ddod
- manylion y meysydd pryder yr adroddwyd amdanynt i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo, ac argymhellion a wnaed
- manylion unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a fu mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, a sut y rheolwyd y rhain
- unrhyw feysydd risg neu bryder y mae'r Bwrdd yn dymuno eu codi gyda Rheolwr y Cynllun
- manylion yr hyfforddiant a gafwyd ac anghenion hyfforddi a ganfuwyd
- manylion unrhyw dreuliau a chostau a fu ar y Bwrdd Pensiwn Lleol, ac unrhyw dreuliau a ddisgwylir yn y flwyddyn i ddod.

5.3 **PENDERFYNWYD cytuno ar adroddiad blynyddol 2015/16 i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2016.**

6 CYFLWYNIAD AR NORMAN VS SWYDD GAER

6.1 Rhoddodd Pennaeth Cyllid gyflwyniad ar achos cyfreithiol Norman vs Swydd Gaer, sy'n ymwneud â chyflog pensiynadwy a dehongli Rheol G1 o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 (FPS92).

6.2 Cafodd yr Aelodau grynodedb o fanylion yr achos sef bod Mr Norman wedi ymddeol yn 2008 a phan ymddeolodd honnodd y dylai'r lwfansau a dalwyd iddo fod wedi cael eu trin fel cyflog pensiynadwy. Dan gynllun FPS92, nid oedd y lwfansau'n bodloni meini prawf cyflog pensiynadwy ond gan fod ATA Swydd Gaer wedi cydgrynhoi'r lwfansau yn un taliad, roedd Mr Norman yn dadlau bod y taliad a gydgrynhowyd yn un pensiynadwy ac yn bodloni'r meini prawf o fod yn barhaol o ran natur.

6.3 Nodwyd bod y Barnwr wedi dyfarnu o blaid Mr Norman ac felly gorchynnodd fod ATA Swydd Gaer yn ailgyfrifo ei bensiwn ar sail y ffaith fod y taliadau ychwanegol yn bensiynadwy. At hynny, roedd yn rhaid i ATA Swydd Gaer dalu cyfraniadau'r cyflogwr ar yr elfen o gyflog gan fynd yn ôl i'r cychwyn.

6.4 Mae'r achos hwn yn sefydlu cynsail i bob ATA, a bydd yn effeithio ar ddiffoddwyr tân cyfredol ac wedi ymddeol yn y D.U. – gyda rhai ar eu hennill a rhai yn colli allan. Mae ATAU Cymreig yn disgwyl arweiniad clir gan yr Ysgrifennydd Gwladol cyn penderfynu pa daliadau a ddylai fod yn bensiynadwy er mwyn cael dull cyson ledled Cymru. Mae Undeb yr FBU wedi dweud hefyd y byddai'n well ganddo gael dull cyson ledled y D.U. o ran pa lwfansau fydd yn bensiynadwy ac y dylid cael cytundeb ac arweiniad ar lefel genedlaethol.

6.5 Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau am y canlyniadau, a nodwyd y byddai unrhyw ôl-dâl hyd at chwe mlynedd yn unol â'r Ddeddf Cyfyngiadau, ond yr Ysgrifennydd Gwladol fydd â'r gair olaf am y mater. Nodwyd hefyd y bydd y gost derfynol ar yr ATAGC a bydd angen ystyried neilltuo cronfa ar gyfer hyn.

6.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ac y bydd yr Aelodau'n cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau.**

7 RHEOLI RISG A RHEOLAETH FEWNOL

7.1 Mae disgwyl i aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol gwblhau modiwlau hyfforddiant ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau, felly ymhob un o gyfarfodydd y Bwrdd bydd yr aelodau'n edrych ar fodiwl gyda'i gilydd ac yn cwblhau'r asesiad fel grŵp.

7.2 Aeth y Rheolwr Pensiynau â'r aelodau drwy'r modiwl ar reoli risg a rheolaeth fewnol ac yna roedd yr asesiad wedi'i gwblhau. Roedd yr amcanion dysgu yn y modiwl hwn yn cynnwys llywodraethu'r cynllun, rheoli risg, cadw data aelodau a gweithio gyda rhai sy'n cynghori ac yn darparu gwasanaethau.

7.3 Nodwyd y byddai'r drefn apelio'n symud ymlaen o'r Prif Swyddog Tân i'r Ombwdsmon Pensiynau a Gwasanaeth Cynghori Pensiynau. Cydnabuwyd y bydd rôl y rheoleiddiwr pensiynau'n tyfu wrth i'r cynlluniau pensiwn gynyddu. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n datblygu cofrestr risgiau yn arbennig ar gyfer y cynlluniau pensiynau.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r modiwl hyfforddi ar reoli risg a rheolaeth fewnol.**

8 Y DIWEDDARAF AM GYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

8.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r holl faterion sy'n ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar hyn o bryd, a'r materion a ganlyn:

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 – penderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau
- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015: Amddiffyniad Trosiannol – Achos ar y Cyd gan Undeb yr FBU
- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 – Gwyliau o Gyfrannu
- Cofrestru awtomatig ac ail-gofrestru
- Trosglwyddo Pensiynau
- Prynu pensiwn yn ôl – gweithredu diwydiannol
- Adolygiad o Archwilio Mewnol – Ansawdd Data Pensiynau
- Norman vs Swydd Gaer.

8.2 Nodwyd bod Undeb yr FBU wedi lansio her gyfreithiol ar y cyd yn erbyn y Llywodraeth ynglŷn â'r amddiffyniadau trosiannol dan y trefniadau pensiwn newydd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2015. Mae eu honiad yn ymwneud â gwahaniaethu honedig ar sail oedran, rhyw a hil, a chwynion posibl ynglŷn â

chyflog cyfartal. Aeth yr Undeb ymlaen i gofnodi ei hawliad gyda'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn Awst 2015. Mae'r achos yn dal i fynd yn ei flaen ond os bydd yr Undeb yn llwyddiannus yn ei her, bydd yr effaith ar y Llywodraeth genedlaethol yn un sylweddol oherwydd bydd yn cael ei ystyried yn anghyfreithlon. Caiff yr aelodau wybod am y datblygiadau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol a gallai'r mater hwn fynd ymlaen am nifer o flynyddoedd.

8.3 O ran cofrestru awtomatig, nodwyd bod y broses yn un graidd erbyn hyn a bod yr wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i Gronfa Bensiwn Dyfed er mwyn sefydlu cofnodion pensiwn unigolyn.

8.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN

9.1 Rhoddodd y DBST yr wybodaeth ddiweddaraf am y materion a drafodwyd ym Mwrdd Cyngori'r Cynllun - Cymru, sy'n debyg i'r rhai a drafodwyd yn y cyfarfod lleol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn eistedd uwchben y byrddau pensiwn lleol a bydd cynrychiolwyr o'r byrddau pensiwn lleol yn rhoi cyngor i'r Gweinidog Cymreig ynglŷn ag unrhyw newidiadau sydd angen digwydd.

9.2 Pan ailasesir gwerth cynlluniau, sef erbyn y flwyddyn 2019-20, mae'n bosibl y gwneir argymhelliad i'r Gweinidog o ran a fydd y gweithiwr/cyflogwr yn talu mwy ynteu a fydd y buddion yn cael eu haddasu. Roedd y DBST a Paul Scott wedi mynychu'r cyfarfod drwy gynhadledd ffôn, gyda'r Cadeirydd yn cyflwyno ymddiheuriad. Dyma'r materion a drafodwyd:

- llywodraethu ac aelodaeth o'r Bwrdd Pensiwn Lleol
- trafodwyd gwahaniaethu ar sail oedran gyda 30 mlynedd o wasanaeth; a dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru eu bod yn gweithio ar y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau ynglŷn â hynny ond nid oes dyddiad o ran pryd y cânt eu cyhoeddi.
- Norman v Swydd Gaer
- ystyried trosolwg o ffigyrau amcanol i weld faint y bydd cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn ei gostio yng Nghymru.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

10 Unrhyw Fater Arall

10.1 Rhoddodd y Pennaeth Cyllid wybod i'r Aelodau am holiadur a ddaeth gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Cadarnhaodd Mrs Brown y bydd hi'n llenwi'r holiadur ar ran rheolwr y cynllun ac y bydd copi'n cael ei ddarparu i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.

10.2 I ateb cais gan un o'r Aelodau, cytunwyd bod crynodeb o'r gwahanol gronfeydd pensiynau yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.